# Syniadau A.G.

*Tymor yr Hydref 2015* *Pris £1.00*

Samantha Jesson,Ysgol Eyton, Wirfoddol dan Reolaeth yr Eglwys yng Nghymru, Wrecsam

## Gwyliau drwy'r Flwyddyn


Weithiau, byddaf yn cael trafferth i wneud cyfiawnder â'r gwyliau crefyddol oherwydd fod cymaint o amser yn mynd i gynllunio ar gyfer Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, y Cwricwlwm AG a'r Cwricwlwm Sgiliau.Yna un diwrnod cafodd fy nghymorthydd dysgu oleuni: 'ym mis Rhagfyr, bydd ein cynlluniau i gyd yn seiliedig ar y Nadolig- byddwn yn ffitio popeth i mewn ac yn cael hwyl, trueni na fedrem wneud yr un peth o gwmpas y gwyliau eraill'. Derbyniais y sialens! Felly dyma fy ymdrech i i gyflwyno AG drwy'r Gwyliau yn ystod y flwyddyn, trafod y prif Arweinyddion, Lleoedd Cysegredig, Iesu a pherthyn. Rwyf wedi crynhoi popeth i'r tudalennau yma ond gallwch ddefnyddio hwn fel man cychwyn.

Arolwg - mewn grwpiau fesul tymhorau yn hytrach na misoedd gan fod rhai gwyliau yn newid bob blwyddyn.

I=Gŵyl Iddewig, M=Mwslim C=Cristion H=Hindŵ

| | |
|---|---|
| Yr Hydref | Cynhaeaf – Diolch am haelioni Duw<br>Sukkot (I) – Cofio y 40 mlynedd dreuliwyd yn yr anialwch ar y ffordd i Wlad yr Addewid.<br>Dydd y Coffa – Dod o hyd i ffyrdd o gofio y rhai sydd bellach wedi'n gadael.<br>Diwali (H) – Gŵyl y Goleuni – Stori Rama a Sita<br>Hanuka (I) – Gŵyl y Goleuni – Stori y Macabeaid<br>Eid-Ul-Adha (M) – Aberth – Stori Abraham ac Isaac<br>St Andreas (C) – Nawddsant yr Alban, pysgotwyr, gwerthwyr pysgod a gwneuthurwyr rhaffau.<br>Yr Adfent (C) – Amser paratoi<br>Y Nadolig (C) – Dathlu geni Iesu ym Methlehem. |
| Y Gwanwyn | Yr Ystwyll (C) – Ymweliad y tri brenin – sylweddoli fod Iesu yn fab Duw.<br>Dydd Santes Dwynwen(C) – Santes y Cariadon – Cyfeillgarwch.<br>Dydd Gŵyl Ddewi(C) – Nawddsant Cymru – Mynachlogydd<br>Dydd Sant Padrig (C) Nawddsant yr Iwerddon – lledaenu gair Duw<br>Pesach (I) – Gŵyl y Bara Croyw – cofio yr Ecsodus<br>Purim (I) – Esther yn achub y bobl Iddewig.<br>Holi (H) – Gŵyl y Lliwiau – Amser i adnewyddu perthnasedd.<br>Y Pasg (C) – Aberth |
| Yr Haf | Dydd Sant Siôr (C) – Nawddsant Lloegr – Sant milwrol blaenllaw – dewrder<br>Y Dyrchafael (C) – Dweud ffarwel<br>Pentecost (C) – Yr ysbryd Glan yn dod ar yr apostolion<br>Ramadan (M) – Y mis sancteiddiolaf – mae ymprydio yn un o bileri Islam<br>Eid-Ul-Fitr (M) – Amser rhoi cymorth i'r tlawd – amser i gysylltu â ffrindiau<br>Shavuot (I) – Moses yn derbyn y Deg Gorchymyn. |

# Yr Hydref



## Y Cynhaeaf

Llyfr Y Pregethwr Pennod 3 adnod 2 'Y mae amser i bob peth... dan y nefoedd.'
Cyswllt AG: Diolchgarwch, Creu
Cyswllt Cwricwlwm :bwyd a ffermio: tyfu; cylch bywyd;

## Sukkot

Cofio yr 40 mlwyddyn dreuliwyd yn yr anialwch ar y ffordd i Wlad yr Addewid
Cyswllt AG: Effaith sydd gan grefydd ar fywydau credinwyr
Cyswllt Cwricwlwm: Adeiladu llochesau, ffoaduriaid a'r di-gartref

## Dydd Coffa



Dod o hyd i ffyrdd o gofio y rhai sydd bellach wedi ein gadael. Gosod bwrdd arbennig fel coffadwriaeth efallai ar gyfer y rhai hynny nad ydym yn eu gweld yn aml. Gwahodd y plant i gofnodi eu meddyliau a'u syniadau (Mynegi ymatebion personol)



## Diwali

Stori Rama a Sita
Cyswllt AG: – y da yn erbyn y drwg; gwneud penderfyniadau; cydweithio
Cyswllt Cwricwlwm: Celf - gwneud lampau diva allan o glai. Addurno gyda dotiau. Pa ddiwylliannau eraill sydd yn defnyddio dotiau i addurno ?

## Hanukka



Gŵyl y Goleuni – Cannwyll y Menorah
Cyswllt AG: Stori y Macabeaid – olew yn parhau am fwy o amser na'r disgwyl.
Cyswllt Cwricwlwm: ailgylchu, arbed ynni, adnoddau

## Eid-Ul-Adha

Stori Abraham ac Isaac
Cyswllt AG: Aberth; Perthyn; Arweinwyr – stori Abraham i'w gweld yn y Torah, y Beibl a'r Qu'ran
Cyswllt Cwricwlwm: Teulu; Anifeiliaid; Pobl sydd yn ein helpu.

## Sant Andreas



Nawddsant yr Alban, pysgotwyr, gwerthwyr pysgod a gwneuthurwyr rhaffau
Cyswllt AG: Mathew Pen 4 ad 19 – 'pysgotwyr dynion'
Cyswllt Cwricwlwm: bwyd a ffermio; bywyd y môr; swyddi/gwaith

Peidiwch anghofio yr Adfent a'r Nadolig

# Y Gwanwyn







**Yr Ystwyll**
Mathew pennod 2 adnodau 1-12
Cysyllt AG: Ymweliad y Doethion; Perthyn; dathliadau
Cyswllt Cwricwlwm: rhoi diolch; teithiau; mapio; testunau crefyddol



**Y Seintiau**
Cysyllt AG: ysbrydolrwydd, arweinyddion crefyddol; lleoedd addoli; mannau pererindod yng Nghymru→ Prydain→ Euwrop→ celf ac eiconau crefyddol
Cyswllt Cwricwlwm: teithiau; nodweddion personol; mapio; Y Fam Teresa;seintiau ac arwyr y byd modern;
Creu eich ffenestr liw eich hun.

**Pesach**
Ecsodus Pennod 12
Cysyllt AG: Arweinyddion– Moses; testunau crefyddol; plat a phryd bwyd seder; symbolaeth grefyddol
Cyswllt Cwricwlwm: rhoi diolch ; rheolau;

**Purim**
Llyfr Esther
Cysyllt AG: Arweinyddion – Esther; testunau crefyddol;
Cyswllt Cwricwlwm: Cydraddoldeb; herio sterioteipio; arwyr; modelau rolau



**Holi**
Cysyllt AG: dathlu; cyfeillgarwch
Cyswllt Cwricwlwm: arbrofi gyda lliwiau; tân a goleuni; defnyddio lliwiau mewn celf;



**Peidiwch anghofio'r Pasg!**

# Yr Haf



**Dydd Sant Sior**
Cysyllt AG: Sant militaraidd
Cysyllt Cwriocwlwm: dewrder; da a drwg: Cymorth i'r Arwyr



**Pentecost**
Cysyllt AG: dyfodiad yr Ysbryd Glan ar yr Apostolion; ffydd; Paul
Cyswllt Cwricwlwm: tan; pobl sydd wedi newid eu bywydau.

**Ramadan**

CyswlltyAG: 5 piler Islam; ymprydio:pererindod; ffydd ar waith: deddfau bwyd; CyswlltCwricwlwm:bwyd;newyn; Cynhaeaf:bwyd i ddathlu;rhannu bwyd

**Eid-Ul-Fitr**

Cyswllt AG: amser i roi cymorth i'r tlawd;elusen. Cyswllt cwricwlwm: Y Farchnad Deg; dillad newydd; ailgylchu hen bethau; ysgrifennu llythyrau:neuaddau cym,unedol

**Shavuot**

Cyswllt AG: Gwledd yr Wythnosau; Moses yn derbyn y Deg Gorchymyn: testunau cysegredig Cyswllt Cwricwlwm:Cynhaeaf; addurniadau; cynyrch llaeth.

## Ydw'i wedi cynnwys popeth ?

| CA2 | Gŵyl | Cyfnod Sylfaen |
|---|---|---|
| • cychwyn a phwrpas bywyd | Cynhaeaf, Sukkot | Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd. |
| •y byd naturiol a phopeth byw | Cynhaeaf, Sukkot | Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd. |
| • hunaniaeth pobl | Pentecost, Pesach, Divali | Lles, datblygiad personol |
| • ystyr a phwrpas bywyd | Ramadan | Datblygiad Moesol a Chymdeithasol |
| • perthyn | Purim, Yr Ystwyll, Eid-Ul-Adha, Diwrnod Coffa | Datblygiad personol |
| • awdurdod a dylanwad | Shavuot | Datblygiad Cymdeithasol |
| • perthnasedd a chyfrifoldeb | Eid-Ul-Fitr<br>Eid-Ul-Adha | Datblygiad Cymdeithasol |
| • taith bywyd | Seintiau, Sukkot, Pentecost | Datblygiad Moesol ac Ysbrydol |
| • gwybodaeth a phrofiad o'r anfaterol /ysbrydol. | Seintiau, | Datblygiad Moesol ac Ysbrydol |


# ADNODDAU MAGC (Mudiad Addysg Grefyddol Cymru)

Catalog Adnoddau, Cyhoeddiadau ac ôl gopiau o 'Syniadau AG' ar gael.

Cyhoeddiadau Cynradd - Pobl Arbennig ; Adegau Arbennig; Iesu ;
Y Nadolig – o flwyddyn i flwyddyn; Mannau Arbennig
Cyfres Ymchwilio i Thema: i Codau Byw; i Ddathliadau; i Gredoau ac i Gwestiynau Dyrys.

SAESNEG Amazing Lives (ar gael yn Gymraeg – Am ddawn –Huw J Hughes)

Cyhoeddiadau Uwchradd – What the Welsh Churches say on moral and social issues;
Barn yr Eglwysi ar faterion moesol a chymdeithasol.

**Cyffredinol:** *More than Just RE* (CEMW Annual Lectures)



Cysyllter â: Sali Roberts, MAGC, Patshyn, Rhiwgwreiddyn, Ceinws, MACHYNLLETH SY20 9EX
(Tel/Ffacs: 01654 - 761 697) e bost: sali@patshyn.fsnet.co.uk



© MAGC 2015